| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD** | **23ain IONAWR 2017** |
| **PENNAWD** | **FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU** |
| **AWDUR** | **IWAN G D EVANS, SWYDDOG MONITRO** |

**Cefndir**

1. Sefydlwyd Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru yn 2011. Amcan y Fforwm oedd ceisio sicrhau cysondeb rhwng y 6 Awdurdod Lleol mewn cysylltiad â gwaith Pwyllgorau Safonau. Roedd hefyd ar gyfer rhannu ymarfer da a datrysiadau i broblemau. Gallai fod yn gyfrwng hefyd I gyfleu barn ar y cyd e.e. i'r Ombwdsmon.

2. Cytunwyd y cylch gorchwyl canlynol:

   - Aelodaeth - Cadeirydd, Is-gadeirydd a'r Swyddog Monitro, a'r Dirprwy Swyddog Monitro neu Aelodau Annibynnol eraill o Bwyllgorau Safonau'n bresennol fel dirprwyon pleidleisio - un bleidlais i bob Awdurdod Lleol a'r bleidlais fwrw gan Gadeirydd y Fforwm
   - Ethol y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd – bob dwy flynedd er mwyn cael cysondeb
   - Gweinyddiaeth – gallai symud gyda'r Cadeirydd, ond byddai angen cynllunio ar gyfer olyniaeth.
   - Amlder Cyfarfodydd – cyfarfodydd chwarterol gan drefnu cyfarfodydd pellach yn ôl yr angen

3. Mae'r Fforwm bellach yn cyfarfod dwywaith y flwyddyn ac mae'r rhaglen ddiweddar wedi cynnwys materion megis:

   - Ymgynghoriad ar Fil Ombudsmon
   - Canllawiau Diwygiedig ar y Cod Ymddygiad
   - Cofrestru buddiannau a rhoddion lletygarwch
   - Ymgynghoriadau ar ddiwigo Llywodraeth Lleol

   Yn ychwanegol mae'r Ombwdsmon wedi mynychu cyfarfodydd ar gyfer cyflwyno ond hefyd cael ei holi gan y Fforwm. Mae'r Fforwm yn unigryw yng Nghymru.

4. Yn ddiweddar hefyd cafwyd cais ar ran Pwyllgorau Safonau Cyngorhau Powys a Cheredigion i ymuno a’r Fforwm. Yn gyffredinol mae hyn wedi cael ei weld fel cam positif ymlaen. Byddai yn gyfrwng i ychwanegu at statws y Fforwm fel corff ymgynghorol a datblygol. Yn amlwg mae oblygiadau daearyddol yn golygu y byddai'r ardal ar gyfer cyfarfodydd yn ehangach. Ar y llaw arall gyda chyfarfodydd yn teithio o awdurdod i awdurdod mae’n debyg y byddai'r ardrawiad yma yn gymharol isel.

**Argymhelliad**
Fod y Pwyllgor yn derbyn y wybodaeth ac yn datgan eu barn ar ddatblygu;r Fforwm